



# Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru

PAPUR GWYN I'W DRAFOD  
Hydref 2019

Awdur: Yr Athro Calvin Jones Ysgol Fusnes Caerdydd

Cynhyrchwyd mewn cyd-weithrediad â  
Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# Cynnwys

---

- 1 **CYFLWYNIAD AC AMCANION** Tudalen 3
- 2 **AILSTRWYTHURO ADDYSG YSGOL ORFODOL Y WLADWRIAETH YNG NGHYMURU**
  - 2.1 Ble rydym ni? Tudalen 5
  - 2.2 Materion cwricwlwm Tudalen 7
  - 2.3 Y Cwricwlwm a Chymwysterau 16-oed yng Nghymru Tudalen 12
  - 2.4 Cymwysterau Addas i'r Dyfodol Tudalen 15
  - 2.5 Materion Strwythurol ac Adnoddol Allweddol Tudalen 20
  - 2.6 Ariannu'r Weledigaeth Tudalen 24
- 3 **CASGLIADAU**
  - 3.1 Ein Casgliadau ac Argymhellion Tudalen 26
- 4 **NODIADAU A CHYFEIRIADAU** Tudalen 29

---

## Prof. Calvin Jones

Ysgol Busnes Caerdydd  
Jonesc24@cf.ac.uk

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
cyswlltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru



Cardiff Business School  
Ysgol Busnes Caerdydd



Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru  
Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales

## 1. Cyflwyniad ac Amcanion

Mae pawb ohonom yn ymwybodol fod y byd yn newid, efallai'n gynt nag ar unrhyw adeg yng nghof dyn, ac y bydd y newidiadau hyn yn cael oblygiadau enfawr ar ddyfodol gwaith, cymuned a llesiant. Mae'n debygol, serch hynny, ei bod hi'n amhosib gweld yn union pa ffurf a gymer y newidiadau hyn, ac yna sut y dylem ni baratoi ein hunan, ein sefydliadau a'n lleoedd er mwyn gwarchod ein hunain a manteisio ar gyfleoedd newydd. Serch hynny, gwyddom y byddant yn drawsnewidiol ac yn barhaus.

Yr hyn a wyddom yw y bydd ein gallu i ymateb yn hyblyg a chadarnhaol i weithleoedd a dulliau byw sy'n newid yn gyflym yn bwysig iawn wrth warchod ein llesiant a'n ffyniant. Gwyddom hefyd y bydd meddu ar yr offer personol angenrheidiol yn gwella ein gallu i ddygymod. Yn y gorffennol, cawsom ein hannog i feddwl am ein galluoedd ein hunain yn nhermau cymwysterau'n unig. Unwaith yr oeddem ni'n meddu ar y cymhwyster cywir, gallem ffitio i mewn i'n safle mewn cymdeithas (gan feddu ar yr hyn a elwir gan economegwyr yn lefel gywir o 'gyfalaf dynol') ac efallai y byddem wedi gorffen ag addysg am byth. Nid dyma'r achos mwyach, ac nid yw mynd i'r afael â dysgu a datblygu personol fel hyn yn ddigon mwyach.

Bydd angen addasu'n gyson i bwysau newydd, cyfleoedd newydd a chyd-destunau newydd mewn byd sy'n cael ei dra-arlgwyddiaethu drosto gan dechnoleg, ac sy'n cael ei herio'n ecolegol. Bydd angen i ni allu treulio, deall ac ymateb i amgylcheddau cymhleth iawn. Bydd bydd gwaith yn debygol o symud (fwyfwy) oddi wrth swyddi ffurfiol, diogel a hirdymor tuag at gyflogaeth lai strwythuredig a mwy hunan-gyfarwyddol, sy'n cynnwys ffynonellau lluosog o incwm o bosib, ac sy'n galw am wybodaeth lawer mwy amrywiol a gyriant ar ran yr unigolyn. Bydd defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a phreifat hefyd yn galw am grebwyll tebyg, er enghraifft wrth i'r ystod o wybodaeth sydd ar gael am ddim ar y we newid y ffordd y byddwn ni'n ymwneud â meddygol teulu, ac wrth i YouTube atgyfnerthu (neu hyd yn oed gymryd lle) addysg ysgol. Bydd angen i ni ddysgu am gyfnod llawer hirach, ac yn fwy eang, a dileu'r gwahaniaeth rhwng cymwysterau a sgiliau sy'n ymwneud â gwaith, a'n cymwyseddau, diddordebau ac ymddygiad personol. Mae angen i ni ddeall pam rydym ni'n dysgu, a dysgu sut i ddysgu – mewn cyd-destunau gwahanol, am resymau gwahanol, ac ar draws ein bywyd cyfan.

Mae deddfwriaeth arloesol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LICD") yn galw arnom nid yn unig i feddwl am y dyfodol a chynllunio ar ei gyfer, ond mae hefyd yn rhoi'r modd i ni ddychmygu Cymru o fath gwahanol. Gan gadw hyn mewn cof, rydym ni'n awgrymu fan hyn ddull nodweddiadol Gymreig o drin addysg orfodol yn ysgolion y

wladwriaeth, sy'n rhoi'r cyfle gorau i bob un o ddinasyddion y dyfodol ffynnu. Nid beirniadu'r strwythurau neu'r perfformiad presennol drwy'u cymharu â lleoedd eraill, ond yn hytrach i feddwl am ba rannau o strwythur addysgol Cymru sydd eisoes yn addas i bwrpas y dyfodol, a'r rhai sydd angen newid – yn gymedrol neu'n radical – ac a ddylid dileu unrhyw beth, neu yn wir ddyfeisio rhai pethau o'r gwraidd.

Nid ydym am ailadrodd yn fanwl yma elfennau gwybyddus a dirgel economi, cymdeithas ac amgylchedd y dyfodol. Ysgrifennwyd llawer eisoes ar y pwnc o gyd-destun byd-eang a'r DU, ac mae'r Adolygiad Arloesi Digidol gan yr Athro Phil Brown ar ran Llywodraeth Cymru'n llenwi llawer o'r manau gwag ac yn darparu set helaeth o ddogfennau a rhestr gyfeirio<sup>1</sup>. Yn hytrach, rydym ni'n symud ymlaen at y cam o awgrymu pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd – neu o leiaf sy'n haeddu cael eu harchwilio a'u hasesu'n drylwyr – er mwyn paratoi Cymru'n well am yr heriau i ddod. O ystyried ansicrwydd tirwedd y dyfodol, rydym wrth gwrs mewn perygl o gael ein profi'n anghywir o ran rhai o'n tybiaethau a'n datganiadau. Ond, fel y dywedodd Lincoln, os y ffordd orau i ragweld y dyfodol yw ei ffurfio, yna efallai y bydd y dadansoddi a'r rhagnodi a gynhwysir yma o ryw fudd i sector gyhoeddus yng Nghymru a ymddiriedwyd i gyflawni polisi a gwasanaethau yn y byd cyfnewidiol hwn.

Rydym ni'n ffodus yng Nghymru ein bod ni wedi rhoi llawer o ystyriaeth dros y blynyddoedd diweddar i'r modd y dylai ac y gallai Cymru'r dyfodol edrych, wrth i'r sgwrs genedlaethol 'Y Gymru a Ddymunwn' arwain at drafod helaeth o gwmpas ffurfio Deddf LICD. Mae'r Ddeddf LICD hon yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer y drafodaeth sy'n dilyn ar sgiliau'r dyfodol, ac ar gyfer trafod ehangach ynghylch sut y gall Cymru ymateb i'r heriau sy'n ei hwynebu. Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw gweithredu fel 'gwarchodwr buddiannau cenedlaethau'r dyfodol' ac yn hynny o beth i godi cwestiynau creiddiol am y math o ddyfodol a ddymunwn ar gyfer ein pobl ifanc, sut y gellid cyflawni hwnnw, a beth allai rwystro, neu yn wir, ein gyrru tuag at hynny. O ystyried grym a bwriad y Ddeddf, a natur y deunydd craidd a'r amserlen ar gyfer newid, nid oes dewis gennym ond bod yn radical.

## 2. Ailstrwythuro Addysg Ysgol Orfodol y Wladwriaeth yng Nghymru

### 2.1. Ble rydym ni?

Ar hyn o bryd, mae plant ysgol Cymru'n profi Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) ac yna ddau 'Gyfnod Allweddol' pellach sy'n mynd â nhw i Flwyddyn 8 neu 9 (yn yr ysgol uwchradd) pryd byddan nhw'n dechrau ar TGAU a / neu gyrsiau galwedigaethol, gydag 'exit' ar sail arholiad ym Mlwyddyn 11. Bryd hynny, oni bai am ddisgyblion sy'n gadael byd addysg, byddan nhw naill ai'n sefyll Lefel A neu gymwysterau galwedigaethol, naill ai mewn ysgol neu Goleg Addysg Bellach (FE).

*Ffigwr 1 Taith y Cwricwlwm*

<b>2014</b>	Huw Lewis yn cyhoeddi y byddai'r Athro Graham Donaldson yn arwain adolygiad cwricwlwm ac asesu
<b>2015</b>	Cyhoeddi Adolygiad Donaldson
<b>2019</b>	Ceisio adborth ar gwricwlwm drafft i Gymru 2022
<b>2020</b>	Cyhoeddi cwricwlwm newydd i Gymru 2022
<b>2022</b>	Rhoi ar waith fesul cam tan 2026
<b>2027</b>	Cyfle cyntaf i sefyll cymwysterau newydd oedran 14-16

Mae'r system hon yn newid yn 2022 wrth i'r llywodraeth fabwysiadu cwricwlwm newydd yn seiliedig ar argymhellion yr Athro Graham Donaldson. Bwriad y cwricwlwm yw creu:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd ganddo 6 'Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh).

- Y Celfyddydau Mynegiannol.
- Iechyd a Lles.
- Y Dyniaethau (gan gynnwys AG a ddylai barhau'n orfodol hyd at 16 oed).
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg, a ddylai barhau'n orfodol hyd at 16 oed, ac ieithoedd tramor modern).

- Mathemateg a rhifedd.
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Yn ogystal, ceir ffocws trawsbynciol ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a lleolir y cwricwlwm fel 'continwwm dysgu', yn hytrach na'i rannu'n gyfnodau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru'n pwysleisio annibyniaeth athrawon i ddatblygu dulliau dysgu, ac yn pwysleisio fod y cwricwlwm newydd yn dysgu oddi wrth gryfderau'r Cyfnod Sylfaen a gyflwynwyd ledled Cymru o 2004 ymlaen.


Mae gweld lle canolog annibyniaeth ysgol ac athro mewn datblygu cynnwys yn gofyn am newid mawr iawn mewn diwylliant ar ran athrawon, Llywodraeth Cymru a chyrrff rheoleiddio, fel Estyn. Mae dogfen Llywodraeth Cymru "Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl 2017-21"<sup>25</sup> yn tynnu sylw at yr her sy'n wynebu pob haen o system addysg Cymru, gan adnabod pedwar 'amcan galluogi' i ddarparu'r cwricwlwm, gan gynnwys:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Er bod sylw'n cael ei roi i ddysgu proffesiynol ac arwain ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd, prin iawn yw'r amser i wreiddio'r newid diwylliant hwn, ac mae'r ymateb i'r cwricwlwm newydd o'r tu mewn i'r proffesiwn dysgu wedi tynnu sylw at y ffaith fod angen cael, y tu hwnt i Ysgolion Arloesi, ragor o eglurder ynghylch y dull<sup>2</sup>.

Roedd gofidiau eraill ymhlith y proffesiwn yn ymwneud â phroses a gweithredu, ynghyd ag ychydig o ddryswch cychwynnol o gwmpas y cysyniad<sup>3</sup>. O dan wyneb y materion hyn, efallai fod gofid am y lefel o adnoddau fydd ar gael i athrawon i ddatblygu a darparu'r cwricwlwm newydd, am mai prin yw'r arwyddion fod chwistrelliad sylweddol o adnoddau'n mynd i ddigwydd ar lefel ysgolion ac ar draws y system cyn y lansiad yn 2022; mai cyfyng yw ymwneud rhannau eraill o system addysg Cymru â datblygu cynnwys neu hyfforddi athrawon; ac yn wyneb y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cael eu beirniadu yn y gorffennol am beidio â dilyn polisïau gwerth chweil â gweithredu go iawn – yr ofnir y bydd 'bwllch gweithredu' yn bodoli. Er mai ar lefel awdurdod lleol y penderfynir ar wariant ysgolion, mae lleihad mewn cyllidebau cyffredinol awdurdodau lleol o ganlyniad i gyni yn mynd i olygu cwmp mewn gwariant fesul disgybl o amcangyfrif o £500 – neu 9% yn y ddegawd o 2010-11 i 2020-21<sup>4</sup>.

Ffigwr 2 Gwariant Fesul Disgybl yng Nghymru



Source: *Sibieta, 2019*

Mae'r trawsnewid hwn, sy'n drwm o ran adnoddau'n digwydd mewn cyd-destun felly ble y gellir dadlau fod angen adnoddau ychwanegol ar addysg ysgolion Cymru er mwyn aros yn ei unfan, hyd yn oed. Nid yw hi'n hawdd cymharu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU o ran perfformiad disgyblion, wedi datganoli, hyd yn oed pan rennir cymwysterau mewn egwyddor (fel TGAU). Serch hynny, er cydnabod yr anawsterau hyn, a'r ddibyniaeth ar fesurau mwy dadleuol (fel PISA), mae'n annhebygol fod addysg ysgolion Cymru ronyn yn well na'n cymheiriaid Prydeinig – yn wir, ymddengys yn waeth ar gyfer Mathemateg a Saesneg<sup>5,6</sup>. O ystyried nodweddion cymdeithasol-economaidd tlotach Cymru'n gyffredinol, efallai y bydd ein gwaith yn hyn o beth rywfaint yn fwy anodd nag yn yr Alban na Lloegr<sup>7</sup>.

## 2.2. Materion cwricwlwm

Erbyn 2022, bydd y myfyrwyr cyntaf yn ysgolion Cymru'n dechrau profi'r cwricwlwm newydd, mwy integredig a ddatblygwyd gan ymarferwyr ac arbenigwyr, gan gynnwys yr Athro Graham Donaldson, a ddatblygodd y rhesymeg gychwynnol ac a gynigiodd fodel ar gyfer newid. Mae gan y cwricwlwm nifer o nodweddion craidd a all ddarparu sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol at y dyfodol i fyfyrwyr, o leiaf o'i gymharu â'r dull presennol. Yn eu plith mae:

- Dull holistig o fynd i'r afael â byd technoleg, gan drin agweddau 'dinasyddiaeth', rhyng-gysylltu addas, creu digidol a dadansoddi data<sup>8</sup>; mae hyn yn bwysig pan gydnabyddir fod yr hollt rhwng y rheiny sy'n meddu ar gymhwysedd â thechnolegau digidol amrywiol (neu fynediad iddynt) a'r rhai hebddynt yn mynd i fod yn gynyddol bwysig.
- Ffocws clir ar ddysgwyr mentrus a chreadigol sy'n pontio bydoedd 'bywyd a gwaith'. Bydd hyn yn bwysig os daw gwaith yn fwy darniol a hunan-gyfeiriol (drwy gyfrwng technoleg), ac os bydd hunaniaethau personol a gwaith yn pylu<sup>9</sup>.
- Os bydd yn cael ei weithredu, byddai ffocws ar ddysgu drwy chwarae, fydd yn cael ei gario drosodd o'r Cyfnod Sylfaen, yn gwella creadigrwydd oedolion Cymru'r dyfodol – ac mae bron bob un o senarios technoleg y dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd creadigrwydd dynol<sup>10</sup>.
- 'Maes Profiad Dysgu' amlwg sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant; unwaith eto, dyma rywbeth sydd â'r potensial i fod yn bwysig wrth symud ymddygiad mewn ymateb i faterion iechyd meddyliol a chorfforol hirdymor a chynyddol yng Nghymru.
- Mae'r ffocws ar ddysgu'r Gymraeg ymhob ysgol yng Nghymru – nid fel ail iaith mwyach – yn debygol o ddatgloi rhyw gymaint o fanteision addysgol a bywyd mwy hirdymor a gysylltir ag addysg ddwyieithog<sup>11</sup>.
- Yn ehangach, mae lansio'r Cwricwlwm newydd yn rhwymo'r Llywodraeth wrth ddull o addysgu fydd, ac eithrio gweld cynnwrf annhebygol, wedi'i osod am y tymor canolig, gan alluogi hyblygrwydd sylweddol o ran cynnwys a dull gweithredu er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau mewn cyd-destun. Mae hyn yn bwysig mewn system addysg genedlaethol sy'n dioddef o 'flinder diwygio'<sup>12</sup>.

Cydnabu athrawon ac eraill a gyfwelwyd am y cwricwlwm newydd gan ganolfan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd ei fod yn darparu cyfleoedd 'perthnasol i'r dyfodol' i ddatblygu pedagogi deniadol a diddorol, gwella symudedd cymdeithasol i ddisgyblion, a gwella ysgogiad, rhywbeth hanfodol i rannau tlotach Cymru<sup>13</sup>. Cydnabuwyd hefyd y cyfle i feithrin agwedd 'gydol oes' at ddysgu – o bwysigrwydd enfawr i sgiliau'r dyfodol.

Mae'n deg dweud, serch hynny, na fydd y manteision hyn yn cael eu cyflawni oni bai fod y cwricwlwm yn cael ei weithredu'n gyflawn, a bod athrawon yn barod (yn bersonol a phroffesiynol) i ddarparu'r gofynion heriol sydd ynddo. Mae'n werth nodi yn hyn o beth fod rhoi'r



Cyfnod Sylfaen ar waith (rhywbeth a dderbyniwyd yn dda, yn gyffredinol) wedi golygu cynnydd sylweddol mewn ymarferwyr dosbarth (cynorthwyr yn arbennig) – oedd yn angenrheidiol ar gyfer darparu dull mwy ymgysylltiol, eang a disgybl-ganolog o weithredu<sup>14</sup>. Hyd yn hyn, nid oes arwyddion y bydd unrhyw chwistrelliad o adnoddau sylweddol tebyg i'r rheng flaen ar gyfer gweithredu 2022.

Mae hyn yn arbennig o bryderus am fod y cwricwlwm newydd yn gosod (hyd yn oed) mwy o bwyslais ar annibyniaeth yr athro a chynnwys a ddatblygwyd gan yr athro, sy'n gofyn am aiddysgu neu ddysgu o'r newydd ar raddfa fawr – o ran techneg a chynnwys. Ymhlith elfennau newydd – i bob pwrpas – fydd yn cael eu taclo, bydd er enghraifft themâu digidol, rhifedd a llythrennedd (mewn arddull drawsbynciol, o leiaf), pwyslais mwy ar sgiliau (uwchlaw cynnwys a gwybodaeth), a'r angen i gysylltu'n llawer amlycach â 'byd go iawn' bywyd a gwaith. Yn ogystal mae'n bosib fod y gofyniad ar i'r cwricwlwm greu dysgwyr moesegol ac 'ymwybodol' yn newydd, anghyfarwydd a heriol i rai athrawon proffesiynol.

*Ffigur 2 Cydberthynas y Cwricwlwm – Cenedlaethau'r Dyfodol*

<b>Ffyrdd o Weithio</b>	
<b>Hirdymor</b>	Cwricwlwm yn cyfeirio'n uniongyrchol at angen i ymateb i gyd-destunau gwaith, digidol a chymdeithasol y dyfodol yn y rhesymeg a nodir ganddo. Digidol yn ffocws cryf drwyddi draw.
<b>Atal</b>	Dealltwriaeth glir fod angen i'r blynyddoedd ysgol arfogi myfyrwyr â'r sgiliau, cymwyseddau, agweddau ac ymddygiadau a fydd o wasanaeth iddynt fel oedolion.
<b>Integreiddio</b>	Ymgais glir i ddatblygu themâu, ieithwedd a dulliau gweithredu sy'n drawsbynciol. Aneglur eto faint o integreiddio ar draws MDPH fydd yn bosib yn ymarferol ledled pob ysgol (o ystyried cyfyngiadau adnoddau).
<b>Cydweithio</b>	Pwysleisir hyn mewn sawl lle yn y cwricwlwm. Dull cydweithredol o weithio — leiaf rhwng LIC ac Ysgolion Arloesi – wedi'i fabwysiadu wrth ddatblygu'r cwricwlwm.
<b>Ymwneud</b>	Cyfyngwyd hyd yn hyn i is-adran o blith y proffesiwn dysgu ac arbenigwyr – efallai fod cyfiawnhad am hynny yn y camau cynnar. Mae'r cyfnod datblygu estynedig yn galluogi ymgynghori meddylgar yn ystod 2019.
<b>Meysydd gôl</b>	
<b>Cymru ffyniannus</b>	Ffocws o'r newydd ac ar draws y cwricwlwm ar feysydd o bwysigrwydd economaidd cydnabyddedig [llythrennedd, rhifedd, digidol], yn enwedig o ran y rheiny sy'n wynebu mwy o her yn y gweithle. Ffocws ar oblygiadau gwaith a gyrfaedd pob MDPH.

<b><i>Cymru gydnerth</i></b>	Cysyniad o ‘ecosystemau’ yn absennol o MDPH y Dyniaethau, ond ceir rhywfaint o gyfle efallai i’w drin, neu drawsgyfeirio o Wyddoniaeth a Thechnoleg, sy’n trin yn benodol oblygiadau amodau amgylcheddol Cymru.
<b><i>Cymru iachach</i></b>	Elfennau lluosog sy’n bwysig ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol personol (a gwytnwch) a gydnabuwyd yn MDPH Iechyd a Llesiant, gan gynnwys ffocws cryf ar effaith digidol a thechnoleg ar iechyd personol / seicolegol.
<b><i>Cymru fwy cyfartal</i></b>	Fframio seiliol cryf o gwmpas ymwybyddiaeth foesegol a materion tegwch. Rhywfaint o sôn am dlodi, er nad mewn cyd-destun penodol Cymreig (Dyniaethau)
<b><i>Cymru o gymunedau cydlynus</i></b>	Fframio seiliol cryf (a chynnwys a awgrymir yn y Dyniaethau) o gwmpas ymwybyddiaeth foesegol a diwylliannol, a goddefgarwch, yng Nghymru a manau eraill.
<b><i>Cymru â diwylliant llachar ac iaith Gymraeg ffyniannus</i></b>	Ffocws cryf (a gyd-destunnir yn fyd-eang) ar ddiwylliant a chreadigrwydd Cymru yn MDPH y Celfyddydau Mynegiannol. Y nod yw cael cenhedlaeth sy’n ymgysylltu’n hyfyw a democrataidd yn eu diwylliant. Cyfochrog â phwyslais y cwricwlwm ar addysg Gymraeg o 2022.
<b><i>Cymru gyfrifol yn fyd-eang</i></b>	Effaith diwydiant (os nad defnydd) Cymru ar amgylchedd a hinsawdd fyd-eang yn cael eu trin yn uniongyrchol mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Materion perthnasol hefyd yn cael eu trin i ryw raddau yn y Dyniaethau.

Serch hynny, bydd yr elfennau hyn yn cael eu darparu mewn cyd-destun ble mae adroddiad diweddaraf Estyn<sup>15</sup> yn adnabod diffygion mewn addysgu llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn cyfran arwyddocaol iawn o ysgolion Cymru. Nid oes gan un o bob tri o ysgolion Cymru ddull cydlynus o fynd i’r afael â datblygu llythrennedd. Nid yw un o bob tri o blith ysgolion cynradd Cymru’n dysgu TGCh yn effeithiol, ac nid yw un o bob tri’n dysgu rhifedd yn dda (mewn rhai achosion, mae’n bosib mai’r un ysgolion cynradd yw’r rhain). Ni chymhwysir sgiliau TGCh yn dda yn gyffredinol ar draws y cwricwlwm, ac mae’n aneglur pa mor bell y gall ysgolion gyflwyno ystod eang o gynnwys dysgu o ffynhonnell ddigidol, na defnyddio dull cyflwyno digidol. Er y gallai’r ffocws a roddir gan y cwricwlwm newydd ar y meysydd hyn wella addysgu’n sylweddol, mae’n werth nodi fod Estyn yn tynnu sylw at ddiffyg hyder a gwybodaeth athrawon fel y prif reswm wrth wraidd y perfformiad tila – ac ymhellach, fod y materion hyn yn ymestyn yn ôl i hyfforddiant cychwynol athrawon. Yn fwy sylfaenol, mae’r ffordd y defnyddir technolegau digidol yn enwedig, ac i ba bwrpasau, wastad yn mynd i fod yn wahanol rhwng oedolion aeddfed (proffesiynol) a phobl ifanc: efallai y bydd angen ymarferwyr gwahanol er mwyn addysgu rhai elfennau o’r cwricwlwm yn effeithlon<sup>16</sup>.

Hebddynt, a heb roi ffocws ar gynyddu gallu a hyder athrawon i godi’u sgiliau yn y meysydd hyn, a sicrhau fod prosesau hyfforddi athrawon yn cydgamu â datblygu’r cwricwlwm, mae’n

annhebygol y bydd plant ysgol Cymru – neu o leiaf y rhai hynny a addysgir mewn ysgolion llai effeithlon – wedi'u harfogi'n dda ar gyfer heriau economi a chymdeithas y dyfodol. Gellir cyflwyno dadleuon tebyg mewn disgyblaethau sydd i bob pwrpas yn newydd. Er enghraifft, mae addysgu busnes ac economeg yn absennol i raddau helaeth o ysgolion Cymru y tu allan i TGAU Busnes CBAC (a adolygwyd yn 2017)<sup>17</sup>, a phrosiectau menter / entrepreneuriaeth ar hap. Mae disgwyl i athrawon dyniaethau – a'r rhan fwyaf ohonynt heb gael dim hyfforddiant mewn economeg – i ddarparu cynnwys busnes ac economeg yn hyderus yn eu MDPH, heb roi hyfforddiant ychwanegol sylweddol iddynt, yn annheg ac afrealistig (a gellid cyflwyno dadleuon tebyg o gwmpas dinasyddiaeth neu hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft).

Heb y cynnwys hwn, serch hynny, a hyd yn oed wrth i Ddeddf LICD ddarparu ffrâm greiddiol, bydd y cwricwlwm newydd yn methu â pharatoi disgyblion ar gyfer byd gwaith presennol (Cymru), heb sôn am fydd y dyfodol ; prin fydd yr athrawon sy'n meddu ar brofiad uniongyrchol, personol o yrfaeodd lluosog na'r economi gig a gwaith tameidiog ac ansicr i gyfeirio ato wrth baratoi i addysgu; mae'r rheiny oll yn elfennau sy'n debygol o nodweddu bywyd gwaith y rhan fwyaf o'u disgyblion.

### 2.3. Y Cwricwlwm a Chymwysterau 16-oed yng Nghymru

Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar o ran ystyried yr asesiad addas o dan y cwricwlwm newydd, mae sawl egwyddor seiliol wedi ymddangos, gan gynnwys ffocws ar adborth ffurfiannol (yn hytrach na chrynodol), symud oddi wrth byrth yn seiliedig ar oed, a gwahanu asesu disgyblion oddi wrth atebolrwydd ysgol ac athro<sup>18</sup>. Er y croesewir yr argymhellion hyn, nid ydynt yn ymdrin yn eithriadol â'r asesiadau allanol hynny ar gyfer cymwysterau 16 oed. Mae Cymwysterau Cymru'n ymgynghori yn 2019 o gwmpas safonau cymwysterau newydd i'r ystod oedran 14-16 i gyd-fynd yn well â'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cynnwys cael 'sgwrs genedlaethol' o gwmpas sut y dylid datblygu safonau cymhwyster o'r fath.

Mae cydweddu cymwysterau â sgiliau (a 'bywyd') y dyfodol yn amlwg yn broses anodd, y cyfyngir arni gan ansicrwydd o ran cyd-destunau'r dyfodol, a chan strwythurau ac adnoddau addysgol presennol, sy'n amlwg yn annigonol. Yng Nghymru, serch hynny, fe allai hyn fod yn dasg ryw gymaint yn haws: yn wahanol i'r rhan fwyaf o wledydd, mae sgwrs genedlaethol eang ei maes a gynhaliwyd yn gynharach wedi amlygu'r saith maes nod fydd yn diffinio Cymru gynaliadwy ble diogelir llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Felly, er bod y cwricwlwm newydd yn gosod y sail bedagogaid, ac yn galw am weld datblygu disgyblion o ran y personol (a chymhwysedd) ar gyfer y cymwysterau newydd, mae Deddf LICD yn ein helpu i ddeall sut y gallai disgyblion gymhwyso'u cymwyseddau fel oedolion. Er ein bod ni'n awgrymu dull sy'n gyson â Deddf LICD, rydym ni'n glir yn hyn o beth *nad ydym ni'n gweld dim tyndra nag ochr negyddol i ddisgyblion a fydd yn gadael Cymru yn y pen draw i astudio, byw neu weithio*. Mae'n glir nad yw tueddiadau a heriau allweddol y dyfodol yn benodol i Gymru, a bydd nodau a diffiniadau cyfreithiol Deddf LICD, ynghyd â ffocws mwy penodol ar sgiliau'r dyfodol mewn cymwysterau'n fwy cyffredinol, yn paratoi disgyblion yn well ar gyfer eu dyfodol, boed hynny yng Nghymru neu yn rhywle arall<sup>19</sup>.

Amlinellwyd safiad presennol Cymwysterau Cymru (QW) mewn llythyr at y Gweinidog<sup>20</sup>. Mae llawer i'w ganmol ynghylch dull QW sy'n pwysleisio ymgysylltu cynnar a rhagweithiol â'r cwricwlwm, agwedd agored i newid a dull eang o gynhwysol o fynd i'r afael â datblygu. Mae'r egwyddorion hyn yn unol â 'dulliau gweithio' Deddf LICD, ac er nad oes sôn uniongyrchol am Ddeddf LICD, naill ai yn llythyr QW nac yn ymateb y Gweinidog<sup>21</sup>, lleolir y cymwysterau i gefnogi 'Cenhadaeth Genedlaethol' Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, sy'n tynnu sylw at Ddeddf LICD fel fframwaith (er bod y Genhadaeth hon ond yn ymestyn tan 2021 ar hyn o bryd)<sup>22</sup>. Gellir dadlau, serch hynny, wrth i Ddeddf LICD osod fframwaith cyffredinol i holl weithgaredd y sector

gyhoeddus yng Nghymru, y gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau mwy uniongyrchol ac amlwg i sicrhau fod y cyrff y mae'n eu hariannu ac yn eu cyfarwyddo'n meddu ar ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r Ddeddf, a ble maen nhw'n ffitio yn 'jig-so' darpariaeth y sector gyhoeddus. Yn yr un mod, (ond ar gyfer adroddiad i'r dyfodol), efallai y byddai modd i gyllido ar gyfer sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch adlewyrchu'r angen i adeiladu 'continwrm dysgu' unigryw ar draws pob oedran, a seiliwyd yn sicr yn fframwaith cyfreithiol Deddf LICD.

Mae'n nodedig fod y cwricwlwm newydd yn awgrymu y galluogir arbenigeddau yn ystod y camau datblygu uchaf (h.y. 14-16 oed). Mae angen meddwl mwy am sail bedagogaid y dull hwn, yn enwedig os yw'r arbenigeddau hynny'n cyd-fynd â disgyblaethau sy'n bodoli'n barod, am fod hyn yn mentro creu agwedd 'cynnal pethau fel y maent i bob pwrpas' i gymwysterau allanol, gydag effaith atgyfnerthol ar yr hyn a ddysgir rhwng 14-16, yn seiliedig ar leihau tarfu ar y drefn a sicrhau hwylustod y ddarpariaeth, yn hytrach na gweld pa strwythur ac ehangder sydd wir yn creu mantais i ddysgwyr am y rhan fwyaf o'u bywyd.

Yn y llythyr oddi wrth Gymwysterau Cymru at y Gweinidog, ceir tybiaeth yn wir y bydd arholiadau cyhoeddus (wedi'u cyhoeddi) safonedig i bobl ifanc 16 oed yn parhau (boed y rheiny'n cael eu galw'n TGAU neu'n rhywbeth arall). Nid yw hyn yn fater sydd wedi'i setlo o gwbl. Tynnwyd sylw gan ddadleuon diweddar yn Lloegr at y ffaith fod llai o ddisgyblion bellach y gadael addysg yn yr oedran hwn, felly mae gan gymwysterau o'r fath fanteision cyfyng, ac roedd dyfeisydd TGAU hyd yn oed yn eu hystyried yn henffasiwn – yn eu ffurf bresennol o leiaf – wrth i rai alw am ddiddymu arholiadau cyhoeddus i bobl 16 oed yn llwyr. Mae angen archwilio'r rhesymeg sydd wrth gefn dal gafael ar arholiadau o'r fath, yn enwedig os ydyn nhw am droi'n ddangosyddion *de-facto* o allu disgyblion ac ansawdd ysgolion.

Mae gan gymwysterau o'r fath (a seilir fel arfer ar arholiadau) ddeilliannau problematig yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd a datblygu cymwyseddau sy'n addas i ddyfodol gwaith a bywyd; er enghraifft:

- Rhaid diffinio cynnwys yn glir a chyson ar draws pob ysgol, rhaid iddo fod yn ddigynwedd am nifer o flynyddoedd, ac mae'n anodd ac yn llyncu amser i'w adolygu. Mae'n annhebygol felly y bydd yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym (ac mae ganddo'r potensial hefyd i gyfyngu rhychwant ac ysgogiad annibyniaeth yr athro).
- O 14 oed (neu'n gynt hyd yn oed, ym Mlwyddyn 9) dysgir disgyblion i basio'r arholiad (h.y, mewn sawl achos am dair blynedd gyfan), gan ddisodli, fwy na thebyg, sgiliau, cymwyseddau a datblygiad personol pwysig, ond anos i'w hasesu;

- Hyfforddir dysgwyr (ac fe'u gwobrwyir) am ddangos set cymharol gul o gymwyseddau – dwyn i gof, dehongli testunol, proses – yn hytrach na sut i ymateb i broblemau amlweddol mewn amgylcheddau cymhleth;
- Gall fod yn anodd symud rhwng 'setiau' ble gosodir dysgwyr yn 13/14 oed oherwydd cynnwys amrywiol, gan olygu y gall plant sy'n hwyr i ddatblygu golli cyfle i ddisgleirio;
- Gellir arwain dysgwyr at ddewisiadau TGAU sy'n gosod eu haddysg i'r dyfodol â dewis neu ymgysylltiad cyfyng<sup>23</sup>;
- Mae 'creu gêm' o'r system yn digwydd mewn ysgolion er anfantais i fyfyrwyr<sup>24</sup>;
- Mae arholiadau'n gwahaniaethu yn erbyn y rheiny na allant ennill y galluoedd hyn yn hawdd, neu na allant eu hatgynhyrchu mewn amgylchedd ffug a than bwysau, amgylchedd sy'n annhebygol o gael ei ail-greu na bod yn berthnasol ym myd gwaith y dyfodol, heb sôn am fywyd y dyfodol<sup>25</sup>.

Mae gan nifer o gyrsiau TGAU presennol elfennau nad ydynt yn seiliedig ar arholiad, er y penderfynir fel arfer arnynt gan natur 'gymwysedig' y pwnc (er enghraifft: Dylunio a Thechnoleg, Celf, Cyfrifiadureg) yn hytrach nag o unrhyw ddyhead (amllwg) i amrywio dulliau asesu.

Er bod dadl bedagogaid gref o blaid ehangu dulliau asesu ar gyfer cymwysterau 14-16, rydym ni o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fynd gam ymhellach. O ystyried yr amserlen (addysgu Blwyddyn 10 yn dechrau yn 2025 ar gyfer asesu yn 2027), nawr yw'r adeg i ystyried a oes angen cymwysterau cyhoeddus, wedi'u safoni ar gyfer disgyblion 16 oed yng Nghymru, o ystyried y nifer gymharol fechan o fyfyrwyr sydd bellach yn mynd i'r farchnad swyddi yn 16 oed, ynghyd â chwestiynu ymhellach rôl a defnyddioldeb TGAU yn eu fformat presennol<sup>26,27</sup>.

O ystyried tueddiadau diweddar, ac mewn Cymru ble datganolwyd polisi yn enwedig, mae'r ddadl o blaid rhoi gwedd newydd ar bethau hyd yn oed yn gryfach. Ceir sawl rheswm dros gadw arholiadau o'r fath; er enghraifft, mae'r ffasiwn bresennol i ddsbarthu addysg chweched dosbarth yn golygu mai TGAU yw cymwysterau 'gadael' lawer o ysgolion, a hefyd, defnyddir TGAU gan ysgolion fel arwydd allweddol o ansawdd addysgol i rieni. Ond nid yw'n glir a yw'r manteision hyn yn sylweddol, neu a ellid eu cyflawni mewn ffyrdd eraill; ffyrdd nad ydyn nhw'n gwyro strwythurau ysgolion a'u dulliau gweithredu, ffyrdd nad ydynt yn cyfyngu ar ddatblygiad ehangach datblygiad disgyblion, fel mae arholiadau cyhoeddus, safonedig yn 16 oed yn eu gwneud<sup>28</sup>. Os na achubir ar y cyfle unigryw hwn nawr i fynd i'r afael â rôl a chylch gorchwyl cymwysterau yn ysgolion Cymru, rydym ni'n methu â defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

a meddwl hirdymor a amlinellwyd yn Neddf LICD, ac efallai y'n gadewir â system sydd eisoes yn henffasiwn am y 30 mlynedd nesaf.

## 2.4. Cymwysterau Addas i'r Dyfodol

Nid yw cymwysterau presennol, ym marn ystod y bobl, yn cyflawni'r hyn a ofynnir ohonynt ar hyn o bryd, ac maen nhw hyd yn oed yn llai tebygol o baratoi plant ar gyfer hwylio i fywydau a gweithleoedd y dyfodol. Mae distyllu'r darnau o dystiolaeth wybyddol am senarios y dyfodol mewn telerau digidol, cymdeithasol-ddemograffig, ecolegol a hinsoddol<sup>29</sup>, a fframio ein hymateb yn nhelerau Deddf LICD, yn cyflwyno sawl nodwedd y gellid disgwyl i gymwysterau newydd, neu rai a ddiwygiwyd yn helaeth, eu cynnwys.

*"If education has moved up to 18, you have to ask yourself what are we testing at 16? Sixteen is no longer a departure for youngsters and very few go to work at that age.*

*"GCSE is no longer assessing performance at departure and over the course of the next ten years it will disappear because it won't have much of a purpose and the real test will be at 18 to show what you have done."*

*Yr Arglwydd Kenneth Baker, 2015*

Nid oes amheuaeth y bydd gwrthwynebiad sylweddol i ryw gymaint, neu'r cyfan, o'r hyn a ddywedir isod, a dyna pam y lleolir y papur hwn fel dechrau sgwrs a drafft ar gyfer ei drafod. Dylem fod yn trafod y datganiadau hyn (boed o safbwynt cytuno neu anghytuno â nhw) gan ddefnyddio rhesymu sy'n seiliedig ar dystiolaeth bedagogaid ac economaidd amlwg; ystyried beth sy'n dda yn y lle cyntaf i ddisgyblion (yn hytrach na gwasanaethu rhanddeiliaid allanol); ac ystyried sut y dylanwadir ar ein barn gan hwylustod rheoli'r system. Rhaid mynegi pwyll yn wyneb tuedd rhai ymarferwyr hefyd; y mae rhai ohonynt yn methu am resymau da (boed hyfforddiant, profiad neu amser) â chael gwybodaeth holistig ac amserol am y marchnadoedd llafur<sup>30</sup> a bydd pob un ohonynt, bron, wedi dilyn llwybr addysgol academiaidd traddodiadol a llwyddiannus drwy brifysgol yn ôl union hanfod eu rôl.

Pwynt ychwanegol y dylid ei wneud fan hyn yw bod offer eisoes ar gael i asesu ansawdd ac effeithlonrwydd ysgolion<sup>31</sup>, a'r system yn ei chyfanrwydd<sup>32</sup>. Rydym ni o'r farn na ddylid asesu ansawdd ysgolion, yn benodol na thrwy eithriad, drwy gyfrwng cymwysterau disgyblion, ac y byddai gollwng gafael ar arholiadau safonedig (ynghyd â rôl gynyddol i Estyn) yn galluogi torri'r cyswllt hwn. Mae'r gwaith o baratoi disgyblion ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol, yn y gwaith ac oddi allan iddo, drwy gymesuro cwricwlwm a chymhwyster, eisoes yn hen ddigon cymhleth. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r nodweddion o ran cymwysterau a awgrymir gennym ni.

Mae'n werth nodi ar lwyfan rhyngwladol, fod y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n cael llwyddiant cydnabyddedig mewn addysg ysgolion erbyn hyn yn sylweddoli bod angen symud at ddull mwy hyblyg o weithredu sy'n canolbwyntio mwy ar y disgybl<sup>33</sup>.

#### **2.4.1. Wedi'i Gyd-greu a'i Gyd-gyflwyno'n Gynhwysol**

Tra bo Deddf LICD yn galw am ddull integredig a chynhwysol o ddatblygu polisi, ceir manteision clir yn ogystal o gyd-greu, ac yn allweddol, gyd-gyflwyno cymwysterau newydd hefyd – mae'r elfennau 'cyd-' hyn yn cyfeirio at fusnesau, sefydliadau celf a diwylliant, trydedd sector, sefydliadau dinesig a chyhoeddus Cymru, y bydd (y rhan fwyaf o'r) myfyrwyr yn ymgysylltu â nhw drwy gydol eu bywyd. Ymysg beirniadaeth o TGAU presennol cafwyd diffyg 'cyflogadwyedd' a arddangoswyd gan fyfyrwyr oedd wedi cymhwyso, a atgyfnerthwyd wedyn, gellid dadlau, gan sawl cymhwyster ôl-16. Mae'r CBI wedi galw droeon am ragor o ymgysylltu gan gyflogwyr mewn ysgolion, ac i hynny ddigwydd yn gynt, er mwyn cryfhau dysgu academiaidd a galwedigaethol fel ei gilydd. Cyfeirir at yr elfennau hyn yn y cwricwlwm drafft i Gymru 2022, er eu bod yn cael eu darlunio fel 'ymweliadau' profiad gwaith<sup>34</sup>. Rydym ni o'r farn fod achos cryf dros weld addysg 14-16 yn cynnwys amser sylweddol yn cael ei dreulio y tu allan i amgylchedd yr ysgol, yn profi byd gwaith a sefydliadau ehangach, ac yn agor disgyblion i enghreifftiau ystyrion o'r hyn a olygir gan 'gyflogadwyedd' ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a dinesig<sup>35</sup> – gan fod o fantais yn y tymor canolig a hirach i fusnesau a sefydliadau Cymru. Dylid pwysleisio dysgu y tu allan i'r dosbarth ysgol drwy asesu ar sail y cyfnod dysgu hwn, a'r asesu hwnnw'n ddelfrydol o natur fyfyrionol a ffurfiannol<sup>36</sup>. Nodwn nad oes gofyn mwyach i ysgolion hwyluso lleoliadau gwaith – gweithgaredd sy'n dwyn llawer o adnoddau, (er ei fod yn un a allai fod yn anodd mewn ardaloedd ble roedd prinder dybryd o fusnesau a sefydliadau ymgysylltiol ar lawr gwlad).


#### **2.4.2. Triniaeth Gyfartal (neu Integreiddio) Llwybrau 'Academaidd' a 'Galwedigaethol'**

Mae Cymru a Lloegr wedi pendilio dros y blynyddoedd diwethaf rhwng datblygu llwybr galwedigaethol grymus i rai 12/14 oed a chwmpo'n ôl ar TGAU fel dewis di-ddewis i bawb heblaw'r rhai sy'n wynebu'r heriau academiaidd mwyaf dwys. Ni chafodd y broses o ddatblygu llwybr galwedigaethol gwerth yr enw ei helpu gan ganfyddiad o 'chwarae gêm' ble gallai cymwysterau galwedigaethol gyfrif fel nifer luosog o TGAU, neu drwy ddiffygion o ran manyleb a dulliau dysgu'r cwrs. Dyw addysg alwedigaethol mewn ysgolion bellach ddim yn denu braidd ddim sylw polisi difrifol<sup>37,38</sup>. Yn y cyfamser, mae myfyrwyr o gymunedau difreintiedig – yn ddaearyddol, rhai sydd wedi mewnfudo a rhai grwpiau ethnig – yn fwy tebygol o geisio



cymwysterau galwedigaethol – neu gael eu rhoi mewn setiau gallu-isel y mae'n anodd dianc ohonynt<sup>39,40,41</sup>. Prin iawn yn ystod y cyfnod datganoledig fu'r culhau yn y bwlch cyrhaeddiad (sobor) rhwng disgyblion o gefndiroedd mwy cyfoethog a mwyaf difreintiedig, a ddangosir yn aml gan ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (Ffigwr 3<sup>42</sup>). Ni fydd cwricwlwm newydd ynddo'i hunan yn newid hyn, nac yn ei dro gynnydd tuag at y nod llesiant o greu Cymru fwy cyfartal, un a fydd yn 'galluogi pobl i gyflawni'u potensial, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau' gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol-economaidd'. Fe allai canolbwyntio'n iawn ar ddatblygu dull o roi cymwysterau sy'n darparu cymwysterau o ansawdd uchel a gwirioneddol gyflogadwydd ar draws yr ystod o ddeunyddiau a astudir mewn ysgolion, a grëwyd ac a gyflwynwyd gan gyflogwyr, ynghyd â dulliau asesu sy'n galluogi myfyrwyr i ennill a dangos ystod ehangach o sgiliau, ail-fframio'r mater hwn, sy'n elfen hanfodol o dan ddiffiniad nod LICD o Gymru Fwy Cyfartal<sup>43</sup>.

Ffigwr 3 Bwlch Cyrhaeddiad Prydau Ysgol am Ddim



Source: Stats Wales, Key Stage 4 examination results (<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4>); GCSE and Equivalent Results, 2010, 2014 and 2016 (<https://www.gov.uk/government/collections/statistics-gcse-key-stage-4>)

### 2.4.3. *Aesu Amrywiol, Naratif, sy'n Canolbwyntio ar Asedau*

Mae nifer fawr o gymwysterau TGAU mewn ysgolion yng Nghymru (â rhai eithriadau wrth gwrs) yn cael eu hasesu'n arferol ar ddiwedd cyfnod o ddwy neu dair blynedd drwy gyfrwng arholiadau ysgrifenedig safonedig<sup>44</sup>. Profir ystod gyfyng o gymwyseddau, gan ganolbwyntio ar, er enghraifft, ddwyn i gof, datrys problemau llinellol ar sail rheolau, a deall ac esbonio deunydd ysgrifenedig. Nid yw'r cymwyseddau hyn yn debygol o gyd-fynd yn dda ag anghenion sgiliau'r dyfodol. Maent yn anwybyddu sgiliau rhyngpersonol pwysig ac agweddau datblygiad personol, prin yw'r cyfle i arloesi ynddynt, nid ydynt yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fwrw golwg dros ddim, ac nid ydynt ond yn datgelu ychydig am gynnydd y myfyriwr i athrawon yn ystod y rhaglen astudio.<sup>45,46</sup> Maen nhw'n cosbi'r rheiny sydd â chymwyseddau gwahanol (fel creadigrwydd), neu'r rhai sy'n perfformio'n wael yn amgylchedd dan bwysau'r ystafell arholi. I roi un enghraifft yn unig, mae gan TGAU presennol Bwyd a Maeth CBAC nodau dysgu a ganolir yn glir ar ddysgu plant i goginio a deall maeth, ond mae'n dal i ddisgwyl i fyfyrwr ddarparu rhyddiaith ysgrifenedig helaeth, gramadegol gywir, a ysgrifennwyd yn dechnegol mewn arholiad ac unedau asesu ymarferol<sup>47</sup>. Yn ogystal, pan fyddan nhw'n 13/14 oed, yn aml nid yw myfyrwyr yn teimlo fod ganddynt ddewis eang na deallus ynghylch pwnc<sup>48</sup>. Nid yw'r cymwysterau sy'n deillio o'r cwrs hyd yn oed yn cael eu hystyried yn addas i'w pwrpas, heb sôn am fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Er mwyn i gymwysterau Cymru fod yn wirioneddol gynhwysol ac yn canolbwyntio ar sgiliau'r dyfodol sy'n debygol o fod yn berthnasol a chymwysadwy, dylai asesu fod<sup>49</sup>:

- yn llawer mwy amrywiol ei natur, wedi'i anelu at y sgiliau cyfathrebu / rhyngpersonol, cyflwyno ac ymarferol sy'n gynyddol bwysig ar hyd grisiau gyrfa, yn ogystal ag ar gyfer llesiant yn fwy cyffredinol;
- wedi canolbwyntio ar faterion holistig y mae pobl ifanc yn debygol o ddod ar eu traws fel oedolion, yn ogystal â'r sgiliau a'r materion y bydd angen iddyn nhw ddeall er mwyn bod yn ddinasyddion gwybodus, cyfrifol yn y dyfodol, fel y mynegir yn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- yn rhannol ffurfiannol, yn ystod rhaglenni dysgu, er mwyn arwain dysgu i'r dyfodol (waeth a yw rhaglenni ar ffurf modiwlau neu'n llinol);

- wedi'i wreiddio â chynnwys moesegol sy'n dysgu disgyblion i werthfawrogi ystod sgiliau a doniau eraill a nhw eu hunain, o ran parchu ei gilydd o fewn y dosbarth ac wedyn mewn cymdeithas ddinesig yn y dyfodol y mae'i phoblogaeth yn deall ac yn rhannu gwerthoedd;
- naratifol i raddau helaeth, er enghraifft, byddai canolbwyntio ar 'asedau'<sup>50</sup> myfyriwr yn helpu athrawon i ddeall yn well anghenion y disgybl, anghenion darpar gyflogwyr, diddordebau'r disgybl a'i doniau<sup>51</sup>;
- yn amhosib eu cymharu rhwng ysgolion, ac o ganlyniad yn dibrisio'u rôl broblematic wrth gymharu rhwng un ysgol ac un arall;
- yn canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn ychwanegu gwerth<sup>52</sup> – wedi'i gyfeirio'n bennaf at wella a datgelu datblygiad y myfyriwr;
- ddim yn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus ar ffurf sy'n galluogi, neu'n waeth, yn annog cymharu rhwng ysgolion a'i gilydd.

Mae rhywfaint o hyn eisoes yn digwydd mewn ysgolion, wrth gwrs – nid lleiaf ar ffurf sylwadau athro ar adroddiadau ysgol blynyddol, ac mae ein hawgrymiadau ninnau'n adlewyrchu'r rhai a amlygwyd yn y cwricwlwm newid i raddau helaeth<sup>53</sup>. Mae'n bwysig nad yw cymwysterau ffurfiol yn torri ar draws y nodweddion hyn er mwyn gwasanaethu atebolrwydd i bobl yn allanol, gan blygu dysgu ac addysgu'n annaturiol mewn ffyrdd cul a chyfyng yn aml. Mae'n hanfodol bwysig fod trefniadau asesu'r cwricwlwm a chymwysterau'n cyfateb.

#### 2.4.4. *Integredig*

Mae ein grwpio galwedigaethol a phroffesiynol presennol yn y Gorllewin yn deillio'n bennaf o 'reoli gwyddonol' (neu 'Tayloriaeth') tua diwedd y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, wnaeth heidio swyddi (ac o ganlyniad, bobl) i setiau mwyfwy cul o dasgau a oedd yn hawdd i'w hasesu a'u rheoli. O ganlyniad i gyfeirio-proses cysylltiol a 'dadsgilio' (oddi wrth 'pen-adeiladwr', cynhyrchu ar sail crefft a wobrwya'i ansawdd a chreadigrwydd)<sup>54</sup> gadawyd sawl galwedigaeth ar drugaredd awtomateiddio mewn cyfres o donnau datblygu technolegol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae swyddi sydd wedi cael eu 'Tayloreiddio' felly o ganlyniad yn gynyddol fregus yn y dyfodol<sup>55</sup>. Yn y cyfamser, daw'n fwyfwy amlwg y bydd angen i weithwyr llwyddiannus y dyfodol feddu ar y gallu i addasu a bod yn hyblyg yn eu setiau sgiliau, ac yn eu gallu i ddadansoddi ac ymateb i amgylcheddau a chyd-destunau cymhleth. Mae'r angen am ddulliau holistig, yn hytrach na pholisi a gweithredu sydd ond yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun nodau cul, yn awgrymu y dylai ein trefn galwedigaethau newid; o gynllunwyr trefol, peirianwyr ac

economegwyr sy'n aml yn gwrthdaro â'i gilydd, i *wneuthurwyr lle*; o nyrsys, seicolegwyr a pharafeddygon i *ddarparwyr gofal* ac o blymwyr a thrydanwyr i – wel, *crefftwyr*, sy'n trwsio'r tap ac yn cynghori cartrefwyr ar gynghorion ar sut i reoli'r cartref, ac o ganlyniad, eu hiechyd, yn well.

Bydd dechrau ar y broses hon yn galw am integreiddio ar draws Meysydd Dysgi yn y cwricwlwm newydd i Gymru 2022. Er enghraifft, byddai ar eco-ryfelwr angen gwybodaeth a dealltwriaeth o seicoleg, economeg, cynllunio ac ymddygiad trefniannol yn ogystal â phrosesau ecolegol; byddai angen iddo allu asesu, cyfuno a gweithredu ar dystiolaeth o fathau ac ansawdd gwahanol; a chyfathrebu'r angen i weithredu mewn ffyrdd creadigol – tra ar yr un pryd yn adeiladu timau hyblyg, rhwydd o bobl â phriodolddau cyflenwol. Mae hyfforddi pobl o'r fath yn gofyn am integreiddio deunydd a chymwyseddau o bob math o 'ddisgyblaethau', a'r ffordd orau o annog y fath integreiddio (sydd ymhell y tu hwnt i themâu trawsbynciol presennol rhifedd, llythrennedd a digidol) yw drwy gynllunio cymwysterau thematig ac asesu sy'n rhychwantu disgyblaethau a MDPH. Mae cadw ffiniau disgyblaethau presennol ar gyfer cymwysterau'n peryglu'r defnydd o ddeunyddiau thematig amhynciol a sefydlwyd eisoes, pedagogi disymud a chloi disgyblaethau (academaidd) i mewn i addysg ôl-16 a thu hwnt, gan effeithio'n andwyol ar gyflogadwyedd a chydnerthedd i'r dyfodol. Dull mwy radical o weithredu yw datblygu llwybr sy'n fwy ffurfiol alwedigaethol i oedan iau yn ystod addysg ysgol.

## 2.5. Materion Strwythurol ac Adnoddol Allweddol

Mae degawd o gyni ar ben agwedd hirfaith, gul, seiliedig ar gymwysterau at addysg ysgol ac arferion dysgu o ansawdd amrywiol wedi gadael y DU a Chymru fel ei gilydd mewn lle anodd, y mae'n rhaid iddynt lywio llwybr ohono at system addysg sy'n fwy addas at y dyfodol Mae'n glir oddi wrth ymatebion ymarferwyr dysgu ac undebau i'r cwricwlwm i Gymru 2022, na fydd ei fwriadau gorau'n cyflawni'r un gronyn o botensial heb ychwanegu adnoddau sylweddol ychwanegol. Gan dynnu ar y gofynion am 'fath' gwahanol o ddysgu ac addysgu a amlinellir yn y cwricwlwm, ac oblygiadau'r dadansoddiad uchod, rydym ni'n awgrymu bod yn rhaid mynd i'r afael â nifer o faterion strwythurol ac adnoddol, ac achub ar gyfleoedd, os yw Cymru'n mynd i baratoi ein plant ar gyfer eu dyfodol.

### **2.5.1. Ailstrwythuro Addysgu Athrawon – Cychwynnol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Ar ôl wynebu beirniadaeth sylweddol yn 2015, pan dynnwyd sylw at broblemau a thensiynau parhaus gan yr Athro John Furlong<sup>56</sup> digwyddodd ailstrwythuro ym maes hyffordd athrawon yng Nghymru, a weithredir yn bennaf drwy'r Cyngor Gweithlu Addysg (EWC)<sup>57</sup> (sy'n rheoleiddio athrawon ysgol a hyfforddiant, ac sy'n darparu gwerth ychwanegol fel 'Pasbort Dysgu Personol' gwirfoddol ar gyfer athrawon). Mae diwygiad cynnwys ym maes addysg gychwynnol i athrawon (ITE) yn cael ei gyflwyno eleni,<sup>58</sup> gyda ffocws uwch, a groesewir, ar roi mwy o rôl i ysgolion, a mwy o le gweladwy i ymchwil mewn hyfforddiant. Mae'r EWC yn darparu rôl ddefnyddiol er enghraifft, mewn tynnu sylw at y modd y gall athrawon ddysgu'n effeithlon o dan y cwricwlwm newydd, a thafllu golau ar faterion allweddol<sup>59</sup>, ond mae'n aneglur sut y mae'r EWC yn ystyried tuediadau cymdeithasol a thechnolegol ehangach wrth arwain ITE neu ddatblygiad proffesiynol, na chwaith a ydyn nhw'n ymwybodol ac ystyriol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>60</sup>. Mae Cyngor llywodraethol yr EWC yn cynnwys 100% o aelodau o blith y sector addysg neu waith ieuenctid, heb ronyn o gynrychiolaeth, er enghraifft, o ddiwydiant, ac mae'r un peth yn wir am ei Fwrdd Achredu<sup>61</sup>. Nid yw dogfennau corfforaethol, gan gynnwys Cynllun Strategol 2019-22 yn darparu dim cyd-destun ar gyfer gweithgareddau, na chwaith unrhyw sôn am y cwricwlwm na Deddf LICD<sup>62</sup>. Yn y cyfamser, mae gwaith blaenorol wedi awgrymu fod angen trawsnewid ITE a datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) er mwyn paratoi athrawon i ymgysylltu â dysgu cynnwys mewn ffyrdd sy'n gwau ynghyd themâu a deunyddiau ar draws MDPH<sup>63,64</sup>. Nid yw'n glir pwy fyddai'n meddu ar y cyfrifoldeb na'r awdurdod i newid addysg athrawon i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer sgiliau'r dyfodol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae niferoedd sy'n mynd drwy ITE yn lleihau yng Nghymru, oherwydd gorgyflenwi yn y gorffennol i raddau helaeth (ac o ganlyniad ddiffyg swyddi i raddedigion), ond prin yw unrhyw arwydd o weithredu strategol<sup>65</sup>. Mae angen, hoffem awgrymu, ailystyried o'r bôn i'r brig a chynnydd mewn cyllido addysg athrawon yng Nghymru, gan gynnwys strwythurau llywodraethiant perthnasol, gan osod y nod yn bendant ar gynhyrchu athrawon sy'n frwdfrydig ac yn meddu ar y sgiliau addas i ddarparu addysg sy'n canolbwyntio ar sgiliau'r dyfodol yn ysgolion Cymru.

### **2.5.2. Amgylchedd Ysgol 'Seicolegol Ymwybodol'**

Dros y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o roi sylw penodol ar dargedu a lleddfu tlodi mewn nifer o feysydd polisi, gan ddadlau fod cyfeiriad ac ymwybyddiaeth o'r fath wedi'i 'bobi' drwy'r trwch yn eu polisiâu ar draws y bwrdd<sup>66</sup>. Ym maes addysg er enghraifft, gwelodd hyn ddiwedd ar Teach First Cymru, oedd yn annog graddedigion

hynod gymwysedig i weithio gydag ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig<sup>67</sup>. Os dyma'r ffordd o weithredu, yna mae'n hanfodol fod athrawon 'y brif ffrwd; yn gallu gweithio'n effeithlon gyda dysgwyr o ystod eang o gefndiroedd ac amgylchiadau yn y cartref.

Mae angen ymgysylltu a chefnogi rhieni a gofawyr i alluogi plant i ddatblygu o oed cynnar, i'w harfogi i ddysgu'n effeithiol ac adeiladu gwytnwch. Mae ymwybyddiaeth a dull gweithredu'r ymarferwr hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau fod plant â phrofiadau andwyol mewn plentyndod (ACEs<sup>68</sup>, a gysylltir yn gadarnhaol â difreintedd economaidd) er enghraifft, yn gallu dysgu mewn amgylchedd cefnogol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau sy'n eu siwtio. er enghraifft, mae'r straen parhaus sy'n dod yn sgil profi ACEs lluosog yn gallu peri iddi fod yn eithriadol anodd i blant (ac yn wir oedolion) i ganolbwyntio am gyfnodau hirach, eistedd yn llonydd, a chydymffurfio mewn ffyrdd eraill<sup>69</sup>. Mae adnoddau ymwybyddiaeth ACE eisoes yn bodoli yng Nghymru, ac yn cael eu treialu ar draws sawl ysgol<sup>70</sup>.

### **2.5.3. Mwy o Gefnogaeth a Deunyddiau Canolog, Mwy o Ymgysylltu**

Mae ffyrdd lluosog ble mae cwricwlwm Cymru 2022 yn galw ar i athrawon ailstrwythuro'u haddysgu, a mynd i'r afael â meysydd na fu'n rhan (ffurfiol) o gwricwla'u hysgolion yn y gorffennol. Mae busnes a gwyddorau cymdeithasol yn ddwy enghraifft yn MDPH y Dyniaethau, ble roedd ysgolion arloesi, hyd yn oed, yn adrodd am lefel isel o brofiad, ac o ganlyniad, ddiffyg hyder i ddysgu<sup>71</sup>. Tra bo'r drafft o Gwricwlwm i Gymru 2022 yn rhoi effaith ac annibyniaeth i athrawon, ceir llawer llai o eglurder ynghylch pa ddeunyddiau a chefnogaeth ehangach fydd ar gael i sicrhau fod athrawon yn alluog a hyderus i ddysgu'n effeithlon mewn meysydd newydd<sup>72</sup>. Mae'r syniad o gynnwys cwricwla hollol unigryw, wedi'i ganoli ar yr ysgol, yn gampus, ond mae'n or-uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y diffyg eglurder ynghylch sut yr ailstrwythurir addysg gychwynnol athrawon er mwyn dygymod; ni fydd diwrnod HMS ychwanegol yn ddigonol. Dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol roi ystyriaeth i faint o gefnogaeth sydd angen ar athrawon i alluogi dysgu effeithiol i ddigwydd, o ran mynediad i gynnwys a ddatblygwyd yn gywir, a dulliau arfer orau (o bob cwr o Gymru a'r tu allan i'r wlad<sup>73</sup>). Yn amlwg, mae tyndra'n bodoli yma rhwng darpariaeth cynnwys 'o'r brig am i lawr' a safonedig, o'i gymharu â deunydd unigryw, addas yn lleol, ond bydd unrhyw ddirymu ar ran Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn debygol o arwain at ddarparwyr preifat yn camu i mewn gyda chynnwys sy'n dod o dempledi sy'n bodoli eisoes, ond wedi'i addasu'r gronyn lleiaf i ymddangos fel pe'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru. Gellid hefyd defnyddi adnodd canolog o'r fath i greu a chynnal cysylltiadau mwy ffurfiol rhwng ysgolion Cymru a'r busnesau, cyrff cynrychioli, cyflogwyr sector gyhoeddus,

elusennau ac eraill, cysylltiadau o natur a fyddai'n gwella dysgu dilys i blant – ac a allai fod o fudd iddyn nhw'u hunain ar yr un pryd.

#### 2.5.4. *Mwy o Ymarferwyr Dysgu, a'r Rheiny'n Fwy Amrywiol*

Mae cyflwyno cwricwlwm sy'n llawer mwy integredig yn galw am feddwl yn ddwfn am bedagogi ysgol a strwythurau dysgu. Rhaid mynd i'r afael ag anawsterau parhaus a chyfarwydd mewn cyflwyno dysgu effeithiol. Dadleuwn y dylai opsiynau i'w hystyried gynnwys:

- **Annog dysgu tîm dan arweiniad athrawon** ar draws yr ystod dilyniant er mwyn darparu dysgu ar draws MDPH gyda thîm sy'n cynnwys diddordebau, profiadau ac arbenigedd sy'n fwriadol gyfl enwol<sup>74</sup>;
- **Cyflogi ymarferwyr dysgu sy'n arbenigo mewn rhifedd, llythrennedd a digidol** i ddarparu (neu helpu i gyflwyno) pob un o'r elfennau trawsbynciol hyn o'r Cwricwlwm mewn ysgolion. Er gwaetha'r angen i gael cymwysterau Saesneg a Mathemateg ar gyfer TAR yng Nghymru, a hyd yn oed o ystyried ITE diwygiedig, ni fydd llawer o athrawon byth yn hollol gyffyrddus a hyderus yn cyflwyno mewn meysydd ble cawsant hwy anhawster i ddysgu eu hunain<sup>75</sup>.
- **Rôl fwy deniadol a ffurfiol ar gyfer cynorthwywyr dysgu** – nad ydynt ar hyn o bryd yn meddu ar strwythur gyrfa glir na chymwyseddau / cymwysterau disgwylidig. Gallai recriwtio wedi'i dargedu mewn meysydd sgiliau (hyd yn oed os nad yw'r sgiliau hynny'n ffurfiol) sy'n brin ar hyn o bryd, helpu i lenwi bylchau mewn gwybodaeth ac arbenigedd – a denu unigolion â llai o sgiliau ffurfiol, ond o ystod ehangach o oedran a chefnidir, sy'n meddu ar gymwyseddau personol cyfoethog a diddordeb mewn meysydd allweddol fel digidol.
- **'Cenhadaeth genedlaethol' i ymgysylltu pobl Cymru'n ddyfnach â dysgu ac addysgu** mewn ysgolion (nid mewn llywodraethu ysgolion yn unig). Wrth i fywydau gwaith y dyfodol fynd yn fwy tameidiog, ac wrth i waith fynd yn fwyfwy anodd ei gael, ni ellir anwybyddu'r cyfalaf cymdeithasol sy'n ymhlyg ym mhobl Cymru – pobl a ymddeolodd yn gynnar, myfyrwyr ar eu blwyddyn bwlch, dinasyddion ymgyrchol, 'geeks' gemau cyfrifiadurol a selogion hel achau<sup>76</sup> – er enghraifft. Byddai ymgysylltu pobl o'r fath, ar sail wirfoddol, ag addysg plant, dan reolaeth addas, yn dod â chyfoeth a dilysrwydd i'r cwricwlwm newydd, yn ogystal â darpar fanteision o ran adnoddau ac amser i athrawon.

Ceir yma weledigaeth graidd ar gyfer cymhareb lawer uwch o ymarferwyr dysgu i fyfyrwyr, ac ymarferwyr mwy amrywiol ac ymgysylltiedig yn hynny o beth. Ni ddylid anghofio fod llwyddiannau canfyddiedig y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol yn niferoedd yr ymarferwyr<sup>77</sup>. Mae'n anodd iawn gweld Cwricwlwm i Gymru 2022 llawer mwy uchelgeisiol yn llwyddo heb fod cynnydd tebyg yn cael ei weld ar draws yr ystod oedran.

## 2.6. Ariannu'r Weledigaeth

Mae darparu'r weledigaeth ar gyfer ysgolion a amlinellwyd uchod yn tra rhagori ar sail adnoddau presennol y sector. Mae'n debygol mai fel hynny y byddai hyd yn oed pe na baem wedi byw drwy ddegawd o gyni a'r lleihad a ddeilliodd o hynny mewn cyllido fesul disgybl. Nid yw'n hawdd cynyddu gwariant ar ysgolion, yn enwedig pan fydd y gwariant hwnnw dan sylw yn mynd i gael ei wario i raddau helaeth ar gyflogau i'r dyfodol yn hytrach na gwariant cyfalaf untro.

Gallai rhyw gymaint o lacio ddigwydd ar gyllidebau o ganlyniad i ddarpar gynnydd mewn gwariant yn ysgolion Lloegr, a chanlyniad dan Fformiwla Barnett i Gymru<sup>78</sup> er bod hyn, wrth gwrs yn ansicr, yn debygol i raddau helaeth ar Brexit ac yn debygol o fethu â chyd-orwedd ag amserlen bendant cwricwlwm Cymru a phethau eraill. Ymhellach, efallai mai dim ond yn rhannol, neu ddim o gwbl, y byddai unrhyw ddeiliant Barnett yn mynd i ysgolion Cymru, yn ddibynnol ar benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Ein barn gadarn ni felly yw y bydd angen dod o hyd i gynnydd mewn adnoddau o'r tu mewn i gyllidebau Cymru, ac ymhellach, oherwydd pwysigrwydd creiddiol addysg ysgol o safon uchel i lesiant cenedlaethau'r dyfodol, y dylid neilltuo'r arian hwnnw i sicrhau fod y strwythurau a'r dull o gyflwyno a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn gallu cael eu hariannu'n gywir. O ystyried amodau cyllideb presennol, bydd angen i hyn fod yn arian newydd, er ei bod y tu hwnt i gylch gorchwyl y papur trafod hwn i awgrymu faint fydd angen. Serch hynny, mae'n amserol nodi y byddai cynnydd o 10% yng nghyllideb ysgolion yn galw am swm o ryw £200m y flwyddyn<sup>79</sup>.

Ar yr un pryd dylai'r Llywodraeth geisio atebion arloesol i leihau'r lefel o ariannu arian parod sydd angen. Er enghraifft, gallai naratif sy'n denu ac ymgysylltu'n gryf â chyfalaf cymdeithasol poblogaeth Cymru i wirfoddoli'u hymdrech, ynghyd â chefnogaeth ganolog (yswiriant indemnïaeth, gwiriadau DBS a'u tebyg) ystwytho'r gwaith o weithredu a lleihau cost fesul ysgol; gallai'r Cytundeb Economaidd gyda byd busnes, sy'n rhan o strategaeth economaidd Ffyniant i Bawb, fynnu fod busnesau'n buddsoddi mewn cefnogi dysgu mewn ysgolion drwy gynnig lleoliadau, gan 'fenthycu' eu staff a mathau eraill o ymgysylltu. O ystyried mai'r diwydiannau



creadigol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn yr economi, pa rôl all y celfyddydau a'r diwydiant creadigol a diwylliannol ei chwarae wrth roi'r cwricwlwm ar waith?

Bydd angen adnoddau ychwanegol o hyd. Nid yw arian neilltuedig ar gyfer addysg a sgiliau'n syniad newydd, wrth gwrs, ond nid yw hi'n hawdd cymhwyso dulliau presennol i ysgolion Cymru. Er enghraifft, mae'r dybiaeth y dylai cyflogwyr a chwmnïau dalu yn gysyniad anodd i sgiliau oedolion / ôl-16, heb sôn am ymyriadau oedran ysgol<sup>80</sup>, ac maen nhw'n fiwrocraataidd<sup>81</sup>. Derbyniodd ymgais ddiweddar y DU gyda'r Ardoll Prentisiaid feirniadaeth hallt ar yr un math o batrwm<sup>82</sup>.

Rydym ni'n cynnig treth newydd neilltuedig ac eang ei sail yng Nghymru, neu efallai, yn fwy ymarferol, ardoll ychwanegol ar drethi sy'n bodoli eisoes, a gyfeirir yn benodol at alluogi'r newid i'r cwricwlwm newydd, ac ar gyfer cynnal addysg o safon uchel sy'n orfodol, ac sy'n addas i'r dyfodol. Dylai cartrefi a busnesau rannu'r baich, er enghraifft drwy gyfrwng mecanweithiau sy'n bodoli eisoes, a allai gynnwys trethi busnes a threth y cyngor (neu olynwyr iddynt), a / neu elfen Cymru o dreth incwm. Ymhellach, o ystyried natur frys yr adnoddau sydd eu hangen, awgrymw'n y dylai Llywodraeth Cymru archwilio defnyddio grymoedd benthycia Sector Gyhoeddus, a ryddhawyd i ryw raddau gan y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru'r M4, i hybu cyllidebau ysgolion yn y tymor byr hollbwysig, gan ad-dalu'r cyfalaf dros yr hirdymor drwy gyfrwng cyfraniad blynyddol, cymedrol, o'r refeniw trethu newydd.

Yn y dyfodol agos, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adroddiad i archwilio'r dewisiadau posib ar gyfer ariannu addysg ysgolion ar hyd y llinellau hyn, ei rôl mewn galluogi newid strwythurol, ac amlinellu ymarferoldeb rhoi adnoddau newydd ar waith ar fyrder. Gallai hyn ddilyn ac adeiladu ar y templed a osodwyd gan adroddiad yr Athro Gerry Holtham ar gyfer y Llywodraeth ar Ariannu Gofal Cymdeithasol yn 2018<sup>83</sup>, a ymdriniodd â sawl mater perthnasol fel neilltuo cyllid, materion ariannol y DU a thegwch.

### 3. Casgliadau

#### 3.1. Ein Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r papur trafod hwn wedi amlinellu'r angen i ailstrwythuro addysg oed ysgol gorfodol i wasanaethu cwricwlwm i Gymru 2022 ac ymhell y tu hwnt i hynny. Mae angen hefyd i weithredu ar fyrder os yw lansiad 2022 a'r blynyddoedd sy'n dilyn yn syth wedyn yn mynd i gael eu nodweddu gan ddiffyg cyfeiriad ac adnoddau ehangach. Ein cred yw bod y gweithredoedd a amlinellir yn cynnwys gweledigaeth gydlynol a phosib ei gweithredu o addysg ysgolin Cymru sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion sgiliau'r dyfodol i Gymru a'i heconomi, ac ar yr un pryd yn cael ei lleoli'n glir o fewn fframwaith werthoedd y cwricwlwm a Deddf LICD fel ei gilydd.

Yn gryno, rydym ni'n dod i'r canlyniadau hyn:

1. Mae'r cwricwlwm newydd yn darparu ffrâm addas ar gyfer newid trawsnewidiol wrth wasanaethu sgiliau'r dyfodol. Mae'n ymwybodol yn foesegol ac yn gyd-destunol ac yn ceisio rhywfaint o integreiddio go iawn, gan gyflawni llawer o ddaliadau Deddf LICD - ond gallai, ac fe ddylai, hyn fod yn fwy eglur.
2. Bydd angen cael cynnydd sylweddol yn nifer yr ymarferwyr fydd yn darparu'r cwricwlwm, fel yn achos y Cyfnod Sylfaen. Yn wir, hyd yn oed yn fwy felly.
3. Nid yw athrawon wedi'u hyfforddi'n ddigonol - nid ar gychwyn eu gyrfa na thrwy ddiwrnodau HMS – i gyflawni'r hyn sydd ei angen. Bydd yn orfodol cael ffocws newydd ac ailstrwythuro dysgu proffesiynol ar gyfer addysgu, i redeg yn gyfochrog ag ail-ddychmygu ysgolion fel sefydliadau dysgu proffesiynol.
4. Dylai'r elfennau digidol, rhifedd a llythrennedd trawsbynciol gael eu cefnogi, a'u cyflwyno mewn llawer o achosion, gan weithwyr proffesiynol ymroddedig a hynod hyfforddedig mewn ysgolion.
5. Os yw'r Gymraeg wir am gael ei dysgu fel rhan o 'ffrwd ddeuol', mae'n hollbwysig ystyried materion logistaidd ac adnoddau canlyniadol yn gynnar - bydd recriwtio neu hyfforddi digon o athrawon sy'n ddigon medrus yn y Gymraeg i allu addysgu ar lefel uwchradd yn yr iaith, ar draws yr ystod o MDPH a disgyblaethau, yn her aruthrol.
6. Mae angen cyd-greu a chyd-ddarparu dysgu gyda busnesau, elusennau a sefydliadau eraill (a chyflogwyr) Cymru.

7. Bydd angen darparu mwy o ddeunyddiau addysgu yn ganolog (neu drwy gonsortia rhanbarthol) nag a dybir ar hyn o bryd, yn enwedig mewn meysydd fel busnes, a fydd yn newydd mewn rhai ysgolion, ac o amgylch themâu trawsbynciol neu 'heriau mawr' fel newid hinsawdd. Mae llawer o'r wybodaeth a'r cymhwysedd eisoes yn bodoli mewn SAUau Cymreig, er bod angen canolbwyntio arno a'i rannu.
8. Mae yna filoedd o bobl sydd wedi ymddeol yn gynnar, sy'n 'geeks' gemau cyfrifiadurol, yn hyddysg yn ancestry.com ac eraill a all helpu i ddarparu dysgu dilys, nid dim ond gwasanaethu ar fyrddau llywodraethu. Ni all eu cyfalaf cymdeithasol fynd yn wastraff.
9. Dylid cefnogi athrawon blwyddyn ysgol mewn ysgolion cynradd gan dimau o ymarferwyr dysgu sy'n meddu ar sgiliau cydweddol.
10. Nid yw TGAU yn addas at y diben mwyach. Mae rhesymeg gref dros eu disodli ag asesiad ar sail naratif sy'n dweud wrth gyflogwyr yn union beth yw pwrpas dysgwyr.
11. Yn wir, o ran paratoi ar gyfer y dyfodol, mae arholiadau cyhoeddus yn 16 oed yn ddibwrpas i raddau helaeth, yn arwain at hapchwarae costus mewn ysgolion a rhwng ysgolion a'i gilydd, ynghyd â'r broses hynod broblematig o 'all-gofrestru' plant llai academaidd.
12. Mae angen i asesu fod yn rhywbeth sy'n ychwanegu gwerth ac sy'n canolbwyntio ar y disgybl, yn digwydd ar draws rhaglenni (nid ar y diwedd yn unig) ac yn amrywiol; ni ddylai fod modd ei gymharu ar draws ysgolion na phrofi ystod gul o sgiliau galw i gof a phrosesu.
13. Rhaid i ffrydiau galwedigaethol fod o ansawdd uchel, yn ymgysylltu â chyflogwyr ac yn dechrau'n gynnar. Yn anad dim oherwydd bod niferoedd anghymesur o fechgyn gwyn, dosbarth gweithiol, mewnfudwyr o ddysgwyr a rhai grwpiau ethnig yn dirwyn eu ffordd i'r rhaglenni hyn.
14. Mae angen i ysgolion fod yn amgylcheddau 'seicolegol ymwybodol'. Efallai bod rhesymau da iawn pam na all disgybl eistedd yn ei unfan am awr, oherwydd ei fod dan straen eithafol parhaus – dan ddylanwad adrenalín.
15. Mae disgyblaethau'n achosi problemau. Ni allwch ddysgu am yr argyfwng hinsawdd heb gynnwys daearyddiaeth, economeg, hanes, cymdeithaseg ac anthropoleg. Felly mae angen i addysgu holistig, traws-gwricwlaidd y tu hwnt i MDPH (ac asesiad perthnasol) fod yn greiddiol.

16. Mae angen i ni ddechrau dyfeisio proffesiynau newydd yn ein hysgolion sy'n archwilio pa swyddi a sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol: Darparwyr Gofal, Gwneuthurwyr Lleoedd, ac Eco-Ryfelwyr er enghraifft.
17. Mae hyn oll yn amhosibl mewn system a fydd yn gweld gostyngiad o 9% mewn gwariant fesul disgybl dros y ddegawd i 2021. Mae angen treth neu ardoll dybiedig neilltuedig arnom ar gyfer Addysg yng Nghymru i gynyddu cyllidebau addysg ysgolion yn sylweddol.

## 4. Nodiadau a Chyfeiriadau

<sup>1</sup> Ar gyfer yr adolygiad hwn gweler <https://gov.wales/review-digital-innovation-delivering-economic-transformation-better-future-work>

<sup>2</sup> <http://theconversation.com/new-welsh-curriculum-may-make-education-more-holistic-but-students-might-miss-out-on-subject-knowledge-111853>

<sup>3</sup> <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-38855531>; <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-46811508>; <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2470>

<sup>4</sup> <https://sibietaeconed.files.wordpress.com/2019/04/school-spending-in-wales-090419-2.pdf>

<sup>5</sup> [https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Pupil-Performance-England-vs.-Wales\\_EPI.pdf](https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Pupil-Performance-England-vs.-Wales_EPI.pdf)

<sup>6</sup> Ibid; <http://athrofa.cymru/2018/05/15/a-test-for-welsh-education/> <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-38208738> See Sellar, S., Thompson, G., & Rutkowski, D. (2017). *The global education race: Taking the measure of PISA and international testing*. Brush Education ar gyfer dadansoddiad o PISA

<sup>7</sup> Ar gyfer materion gwmpas difreintedd a chyflawniad, gweler: Morris, T., Dorling, D., & Davey Smith, G. (2016). How well can we predict educational outcomes? Examining the roles of cognitive ability and social position in educational attainment. *Contemporary social science*, 11(2-3), 154-168.

<sup>8</sup> <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales-2008/digital-competence-framework/>

<sup>9</sup> Papur Gwyn Barcelona ar Ddyfodol Swyddi a Gwaith <http://www.euocities.eu/euocities/news/Barcelona-presents-White-Paper-on-the-future-of-work-and-jobs-at-EU-level-WSPO-B8N5FH>

<sup>10</sup> Mishra *et al* (2012) Technology & Creativity in the 21st Century: Crayons are the Future Tech Trends 56: 13. <https://doi.org/10.1007/s11528-012-0594-0>; Petelczyc, C. A., Capezio, A., Wang, L., Restubog, S. L. D., & Aquino, K. (2018). Play at work: An integrative review and agenda for future research. *Journal of Management*, 44(1), 161-190.

<https://doi.org/10.1177/0149206317731519>

<sup>11</sup> O leiaf fel yr adroddwyd yn America: Bialystok, E. (2018). Bilingual education for young children: review of the effects and consequences. *International journal of bilingual education and bilingualism*, 21(6), 666-679; <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13670050.2016.1203859>; Lindholm-Leary, K. (2016). *Bilingualism and Academic Achievement in Children in Dual Language Programs*. in *Bilingualism Across the Lifespan: Factors Moderating Language Proficiency*.

<sup>12</sup> <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf>

<sup>13</sup> <https://www.weforum.org/agenda/2019/04/a-new-welsh-curriculum-aims-to-make-education-more-holistic-will-it-work/>

14 <https://wiserd.ac.uk/publications/evaluating-foundation-phase-final-report>; - rhoddir sylw i'r angen i fuddsoddi'n gywir yn achos y Ffindir <https://www.smithsonianmag.com/innovation/why-are-finlands-schools-successful-49859555/>

15 [https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn\\_Annual%20Report\\_2018\\_English\\_Accessible.pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn_Annual%20Report_2018_English_Accessible.pdf)

16 Gweler 2.5.4

17 [https://wjec.co.uk/qualifications/business/r-business-gcse-2017/wjec-gcse-business-spec-from-2017%20\(22-06-16\).pdf](https://wjec.co.uk/qualifications/business/r-business-gcse-2017/wjec-gcse-business-spec-from-2017%20(22-06-16).pdf)

18 <https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/assessment-and-evaluation-framework/assessment-proposals/>

19 Gweler er enghraifft [https://link.springer.com/chapter/10.1007/978-3-319-66923-6\\_33](https://link.springer.com/chapter/10.1007/978-3-319-66923-6_33) ar gyfer sgiliau a chymwyseddau sy'n berthnasol ar gyfer Diwydiant 4.0

20 <https://qualificationswales.org/media/4209/letter-education-minister-eng-12-feb-2019.pdf>

21 <https://qualificationswales.org/media/4223/qualifications-wales.pdf>

22 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf>

23 <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03054985.2018.1409964>

24 [https://www.theguardian.com/education/2019/apr/18/more-than-49000-pupils-disappeared-from-schools-study?CMP=share\\_btn\\_link](https://www.theguardian.com/education/2019/apr/18/more-than-49000-pupils-disappeared-from-schools-study?CMP=share_btn_link); <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-45508976>

25 <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/0143034308101850>

26 <https://www.telegraph.co.uk/education/further-education/11803801/GCSEs-are-outdated-and-will-wither-on-the-vine-says-the-man-who-introduced-them.html>

27 <https://www.bbc.co.uk/news/education-33190028>

28 <https://www.bbc.co.uk/news/education-47149808>

29 Gweler er enghraifft Brown et al (2019) xxx

30 <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/09500693.2016.1195520>. Yn ogystal, tynnir athrawon ddim ond o'r is-ran honno o'r boblogaeth oedd yn ddigon academig-dueddol i fynychu prifysgol, gan annog tuedd bellach.

31 Gwaith ESTYN, y gellir dadlau fyddai angen ei ymestyn a'i ailstrwythuro pe rhoddid y gorau i TGAU safonedig

32 E.e. PISA er nad yw hyn heb ei broblemau.

33 <https://www.scmp.com/comment/insight-opinion/article/2118926/hong-kong-schools-can-learn-flexible-education-system>

34 <https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/humanities/>

- <sup>35</sup> <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/0019793914564963> <https://www.emeraldinsight.com/doi/abs/10.1108/HESWBL-07-2014-0027>; <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/03075079.2013.842221>
- <sup>36</sup> Gweler er enghraifft <https://scinapse.io/papers/2096200540> and <https://eprints.qut.edu.au/12576/> ar gyfer trafodaeth ar sail y gyfraith.
- <sup>37</sup> Yn wir, bernir yn aml fod y term 'addysg alwedigaethol' yn *eithrio* ysgolion <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/ea041.pdf>.
- <sup>38</sup> Mae Cymwysterau Cymru wedi gwneud rhyw gymaint o gynnydd yn dawel bach wrth ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer sectorau 'galwedigaethol' <https://qualificationswales.org/english/news/cbe-award-announcement-july-2019/>
- <sup>39</sup> <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/01425692.2014.982860>
- <sup>40</sup> <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/poverty-ethnicity-education-full.pdf>; <http://www.smf.co.uk/half-white-working-class-black-british-students-england-get-university-vocational-qualifications-btecs/>; <http://www.blackeducation.info/upload/docs/BME%20People%20and%20Educational%20Disadvantage.pdf>
- <sup>41</sup> <https://dera.ioe.ac.uk/28399/1/170201-promoting-engagement-en.pdf>
- <sup>42</sup> Cymerwyd o [https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Pupil-Performance-England-vs.-Wales\\_EPI.pdf](https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Pupil-Performance-England-vs.-Wales_EPI.pdf)
- <sup>43</sup> Ymddengys fod y Ffindir yn dangos nad yw cydraddoldeb ac ansawdd yn gorfod cael eu cyfnewid am ei gilydd <https://link.springer.com/article/10.1007/s11125-008-9061-2>
- <sup>44</sup> <https://www.theguardian.com/commentisfree/2018/aug/26/the-guardian-view-on-gcses-there-is-more-to-school-than-exams>
- <sup>45</sup> Gweler Goldstein, H., & Nuttall, D. L. (2017). 'Can graded assessments, records of achievement, modular assessment and the GCSE co-exist?' yn Gipps, CV (Ed). *Effective Assessment and the Improvement of Education: A Tribute to Desmond Nuttall*, 132., ac yn wir y llyfr cyfan i gael cyflwyniad i'r rheswm pam mae TGAU fel y maent.
- <sup>46</sup> I ryw raddau, mae TGAU wedi *gwaethygu* yn hyn o beth; gweler <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/04250494.2017.11964034> am un enghraifft. Erys 'Asesiadau a reolir' (h.y gwiath cwrs y tu allan i arholiad) mewn TGAU yn ail blentyn trafferthus o hyd; [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/377903/2013-06-11-review-of-controlled-assessment-in-GCSEs.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/377903/2013-06-11-review-of-controlled-assessment-in-GCSEs.pdf); <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/0969594X.2019.1619514>
- <sup>47</sup> [https://wjec.co.uk/qualifications/food-and-nutrition/wjec-gcse-food-and-nutrition-spec-from-2016-e.pdf?language\\_id=1](https://wjec.co.uk/qualifications/food-and-nutrition/wjec-gcse-food-and-nutrition-spec-from-2016-e.pdf?language_id=1)
- <sup>48</sup> <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03054985.2018.1409964>
- <sup>49</sup> <https://journals.sagepub.com/doi/full/10.3102/0013189X15584327>
- <sup>50</sup> Gweithredu'r dull 'gwydr hanner llawn' o fynd i'r afael â Datblygu Cymunedol ar Sail Asedau i'r gwaith o ddeall potensial plant; <https://sustainingcommunity.wordpress.com/2013/08/15/what-is-abcd/>

- 51 Gweler <https://www.theguardian.com/education/2019/may/13/teachers-assessing-pupils-could-replace-formal-exams-study-says> am astudiaeth berthasol ddiweddar iawn
- 52 Defnyddir asesiadau myfyrwyr sy'n ychwanegi gwerth eisoes er bod cyswllt yn yr UDA i werthuso athrawon nad ydym ni'n ei ragweld yma; gweler <https://journals.sagepub.com/doi/full/10.3102/0013189X15575031> a <https://journals.sagepub.com/doi/full/10.3102/0013189X15575346> am ddadl ddiddorol.
- 53 <https://curriculumforwales.gov.wales/2019/04/26/assessment-and-the-new-curriculum/#more-1486>
- 54 <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0361368299000525>; <https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/0143831X17735671>; Mae gan 'Debt: the First 5,000 Years' gan Dave Graeber adran ddiddorol ar hyn: <https://www.mhpbooks.com/books/debt/>
- 55 <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/00213624.2016.1148469>
- 56 <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-final.pdf>
- 57 [www.ewc.wales](http://www.ewc.wales)
- 58 <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/research-and-policy/research-blogs/315-professional-insights-trainee-teachers.html>
- 59 Er enghraifft ar lefelau adnoddau a diffyg unrhyw ddull o achredu proffesiynol <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/research-and-statistics/consultations/1394-ewc-response-to-the-children-young-people-and-education-committee-consultation-on-welsh-government-s-progress-in-developing-the-new-curriculum-for-wales.html>
- 60 E.e. o ran cynllunio hirdymor a seiliwyd ar ddealltwriaeth gadarn o dueddiadau a senarios y dyfodol; osgoi datblygu sgiliau darfodol; integreiddio addysg ar draws ystod o feysydd a disgyblaethau; cydweithio â busnes, NGOs ac eraill; a chynnwys athrawon, disgyblion ac eraill yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno Addysg Gychwynol i Athrawon
- 61 <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/initial-teacher-education-ite-accreditation-board.html>
- 62 <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/about/corporate-documents.html>
- 63 <https://nation.cymru/opinion/we-need-to-prepare-our-school-pupils-for-wales-dysfunctional-economy/>
- 64 <https://repository.uwtsd.ac.uk/953/>
- 65 <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/research-and-policy/research-blogs/315-professional-insights-trainee-teachers.html>
- 66 <https://gov.wales/written-statement-closure-communities-first-programme>
- 67 Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion ariannol yn parhau.
- 68 <https://developingchild.harvard.edu/resources/aces-and-toxic-stress-frequently-asked-questions/>



69 O'i roi yn iaith y lleygwr, mae plant o'r fath yn profi lefelau uwch o hormonau straen 'ymhladd neu hedeg'

70 <https://www.aceawarewales.com/>

71 Gwybodaeth a gasglwyd yn ystod digwyddiadau datblygu'r Cwricwlwm.

72 [https://cf-my.sharepoint.com/:w/g/personal/jonesc24\\_cardiff\\_ac\\_uk/EdXioRkm\\_mIOgXITgj-tz2kBG3pPedDsdMHFI22paKaepQ?e=2J97ew](https://cf-my.sharepoint.com/:w/g/personal/jonesc24_cardiff_ac_uk/EdXioRkm_mIOgXITgj-tz2kBG3pPedDsdMHFI22paKaepQ?e=2J97ew)

73 Ceir dadl fywion eisoes ymysg athrwaon ynghylch pa sefydliadau fydd yn datblygu cynnwys go iawn ar gyfer y cwricwlwm, a alluogir i ryw raddau gan Hwb a'r consortia rhanbarthol.

74 <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00131880600732272>; <https://eric.ed.gov/?id=ED378777>

75 <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/research-and-statistics/consultations/1394-ewc-response-to-the-children-young-people-and-education-committee-consultation-on-welsh-government-s-progress-in-developing-the-new-curriculum-for-wales.html>

76 Er enghraifft, gwreiddio'r syniad o arfer amlgenhedlaeth <http://www.ageingwellinwales.com/Libraries/Documents/Guide-to-Intergenerational-Practice.pdf>; <https://www.childcomwales.org.uk/resources-2/intergenerational-resource/>

77 <https://wiserd.ac.uk/publications/evaluating-foundation-phase-final-report>

78 Adeg ysgrifennu hwn, awgrymwyd y bydd cynyddu gwariant yn flaenoriaeth allweddol i bwy bynnag fydd yn arweinydd newydd y Torïaid <https://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-48468396>

79 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Delegated-School-Outturn>

80 <https://www.ingentaconnect.com/content/sabinet/1ht5j5/2002/00000026/00000001/art00001>

81 <https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:7b96c61d-1fa8-4526-b022-2fece494abd1>

82 <https://www.bbc.co.uk/news/business-42818613>

83 *Talu am Ofal Cymdeithasol – Adroddiad annibynol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru*  
Yr Athro Gerald Holtham Mehefin 2018 <https://gov.wales/paying-social-care>

